# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes


03 Ionawr 2022

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch ar gychwyn blwyddyn newydd gan obeithio eich bod wedi gallu mwynhau ychydig o wyliau dros cyfnod y Nadolig heb ormod o ardrawiad oherwydd salwch a COVID.

Mae'r pryder am yr amrywiolyn Omicron o'r feirws yn real iawn gyda pob un ohonom rwy'n siwr naill ai wedi cael profiad personol o'r feirws neu yn adnabod eraill sydd wedi dioddef ohonno yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'r nifer o achosion +ve COVID sydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn bryderus o uchel ac yn debygol o gyrraedd uchafbwynt yn hwyrach yn y mis.

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dau ddiwrnod cynllunio i bob ysgol ar ddechrau tymor y gwanwyn - bydd hyn yn caniatáu amser i mi asesu capasiti staffio yr ysgol ar ddiwedd y gwyliau Nadolig ac ar gychwyn y flwyddyn newydd a rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i gefnogi dychweliad dysgwyr.

Bydd y diwrnodau cynllunio hefyd yn caniatáu i ni gynllunio er mwyn i ddysgwyr sefyll eu arholiad Cymraeg Llenyddiaeth TGAU ym mis Ionawr yn ddiogel. Defnyddir y diwrnodau cynllunio ar gyfer trefnu cynlluniau cadarn pe bai angen symud at ddysgu o bell. Gallai hyn fod ar gyfer dosbarthiadau/grwpiau blwyddyn unigol neu o bosib ar gyfer yr ysgol gyfan, gan ddibynnu ar y pwysau ar ein lefelau staffio.

Fe fyddaf yn mynychu cyfarfodydd rhithiol yfory a dydd Mercher sydd wedi eu trefnu gan Cyfarwyddwr Addysg Caerdydd er mwyn derbyn y wybodaeth diweddaraf am sefyllfa'r feirws ac asesiadau risg ysgolion. Fy mwriad yw i ysgrifennu atoch dydd Mercher i rannu'r wybodaeth diweddaraf am ein sefyllfa staffio a'n gallu i agor yr ysgol yn ddiogel i ddisgyblion dydd Iau.

Mae'r pryder am ymlediad cyflym yr amrywiolyn Omicron yn ei gwneud hi'n bwysicach nag erioed i ni 'lynu at ein rheolau a'n gweithdrefnau atal lledaeniad COVID yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gofynnaf yn garedig i chi bwysleisio i'ch plentyn bwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb yn yr ysgol gan gynnwys mewn gwersi ac iddynt barhau i ddi-heintio eu dwylo a chadw at ein system cerdded un-ffordd. A fyddech cystal a gwirio fod gan eich plentyn orchudd wyneb yn ei b/phoced neu fag ysgol cyn gadael y tŷ yn y bore, yn barod am ddiwrnod ysgol?

**Os oes unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn hyd yn oed os yw'r prawf llif ardraws yn negyddol, fe'ch anogaf i drefnu prawf PCR i'ch plentyn drwy ffonio 119 er mwyn bod yn gwbl sicr o'r sefyllfa.** Os yw'r symptomau yn parhau, gofynnaf i chi gadw eich plentyn adref nes eich bod yn derbyn canlyniad y prawf PCR. Cofiwch gysylltu â ni gyda gwybodaeth am ganlyniad PCR +ve eich plentyn.

Yn ôl canllaw diweddaraf y Llywodraeth, mae disgwyl i unrhyw un sydd wedi derbyn canlyniad PCR +ve, hunan-ynysu am **7** diwrnod a chymryd prawf llif ardraws (LFT) ar ddiwrnodau 6 a 7. Os fydd y profion llif ardraws yn negyddol ar y

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

ddau ddiwrnod hynny, yna fydd yr unigolyn yn medru dod allan o ynysu ar yr 8fed diwrnod a dychwelyd i'r ysgol neu'r gwaith.

**Mae trefniadau hunan-ynysu wedi newid.** Erbyn hyn gofynnir i bawb dros 18 oed sydd wedi'u brechu'n llawn (wedi derbyn dau ddôs o frechlyn cymeradwy) a phlant rhwng 5 a 17 oed ddefnyddio profion llif ochrol (LFTs) bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt ag achos COVID-19 positif. Gelwir hyn yn 'Brofi Cyswllt Dyddiol'.

Mae disgwyl i ddisgyblion a staff gymryd prawf llif ardraws yn y cartref 3 diwrnod ar wahân yn wythnosol. Mae angen i ddisgyblion gofio casglu pecynnau newydd o'r ysgol pan fo angen. Yn amlwg, os yw'r prawf yn un cadarnhaol, bydd angen cysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'r gwasanaeth iechyd er mwyn trefnu prawf PCR.

Mae'n hanfodol bwysig fod disgyblion a staff yn defnyddio'r profion llif ardraws yn ystod yr wythnos fydd yn arwain at gychwyn tymor y gwanwyn. Bydd yr ysgol ar agor yfory a dydd Mercher, Ionawr 4ydd a 5ed i chi ddod i gasglu pecyn o'r dderbynfa os nad oes un gennych yn y cartref. Mae'r nifer o becynnau sydd yn yr ysgol yn gyfyngedig nes daw'r archeb nesaf o brofion i'r ysgol, felly gofynnaf yn garedig i chi gyfyngu eich hunain i gasglu un pecyn yn unig.

Cofion cynnes

John Hayes
Pennaeth

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

03 January 2022

Dear Parent / Guardian

I sincerely hope that you managed to enjoy some time to relax and recover during the Christmas holiday and that your plans were hopefully not unduly affected by COVID.

The concern about the Omicron variant is very real with many of us having first hand experience of +ve COVID cases either in our own households or amongst family and friends. The rising number of +ve cases in Cardiff at the moment is of grave concern to us all and the numbers are predicted to peak later this month.

You will recall that the Education Minister has provided all schools with two planning days at the start of the new spring term, which will allow us time to assess our staffing capacity and put the necessary measures in place to support the return of our learners.

The planning days will also allow us time to plan for our Year 11 learners to safely sit their January Welsh Literature GCSE exam. School leaders have been advised to make use of the planning days to ensure that robust plans are in place to move to remote learning if necessary. This could be for individual classes/year groups or possibly for the whole school, depending on staffing pressures.

I will be attending briefing sessions arranged by the Director of Education on Tuesday and Wednesday to hear the latest information about the current COVID situation and on how we must review our current risk assessment. I intend to write to you on Wednesday to share with you the latest information on the safe re-opening of the school to pupils on Thursday.

The concerns about the rapid transmission rate of the Omicron variant makes it more important than ever for all of us to comply with the school's COVID rules and working parctices. I would ask you to reinforce the importance of wearing a face covering in school and in lessons with your child/children, the importance of using hand sanitizers and keeping to our one-way sysyem around school. Please can you ensure that your child leaves the house in the morning with a face covering in his/her pocket or bag, ready for the school day?

**If you have any concerns about the health of your child and even if a Lateral Flow Test is -ve, I encourage you to book a PCR test by calling 119 to make sure that they are not suffering from COVID-19.** If your child is symptomatic then please do not send your child to school whilst awaiting the result for the PCR test. Please inform us if your child receives a +ve COVID PCR test result.

The latest Welsh Government guidance states that anybody who has tested +ve for COVID should self-isolate for **7** days. They should take Lateral Flow Tests on days 6 and 7 and if the results of these tests are negative, then the individual may be free to return to work or school on day 8.

**Arrangements on self-isolation have changed.** All over 18s who are fully vaccinated (having received two full doses of an approved vaccine) and children aged 5 to 17 are now asked to take lateral flow tests (LFTs) every day for 7 days if they are identified as a contact of a positive COVID-19 case. This is known as 'Daily Contact Testing'.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Staff and pupils are reminded of the importance of continuing to test themselves with the lateral flow test 3 times a week throughout the term. Please remind your child to ask for another testing kit in school once they've finished a kit. If your child tests positive, please report the result to school and to the local health board in order to book a PCR test.

I would ask pupils and staff to test themselves during the week leading up to the start of the new term. If you have run out of tests and have been unable to access them through the NHS, then you may collect a pack from the school reception area either tomorrow or Wednesday. We only have a limited supply of LFT kits at the moment as we await our next delivery of test kits so I would kindly ask you to limit your collection to 1 kit per household.

Best wishes

John Hayes
Headteacher